# CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC: Tom Jones, 22, Endsleigh Road, Hen Golwyn. LL29 9DT Ffôn: 01492 515999 Sym: 07774 833523
e-bost: clerc@betwsdallanelian.org.uk

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NEUADD BENTREF,
BETWS YN RHOS YN RHOS, AM 7.30y.h. NOS LUN, 17eg o HYDREF, 2022.**

**1. CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Irwedd GRIFFITHS pawb i'r cyfarfod.

**2. YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr John EVANS; Bryn JONES; Glena HUMPHREY; D Gwyn JONES; John D. ROBERTS; Hefin WILLIAMS; Goronwy R. WILLIAMS; a'r Cynghorwr Sir Ifor G WILLIAMS.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorwr Gethin OWEN.
Cafwyd gwybodaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf fod y Cynghorydd Hilda GIBBS yn ymddiswyddo.

**4. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Atgoffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. Mae'r Cynghorydd Ifor LLOYD wedi dweud ei fod o'n eistedd ar y pwyllgor cynllunio ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau'n ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

a. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb gan unrhyw un.

**5. MUNUDAU**

Wedi nodi y ddau gamgymeriad canlynol cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 5ed o Fedi, 2022. (Cynnig y Cynghorydd Goronwy R WILLIAMS ac eilwyd gan y Cynghorydd John EVANS).

a. Item 2 - Roedd y Cynghorwr Hefin WILLIAMS yn bresennol

b. Item 17 – Ffordd y Figyn rhwng Fferm Bryn Elian ac Ysgubor Newydd.

**6. MATERION YN CODI**

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

**7. CYLLID**

a. Cafwyd Adroddiadau Misol am y cyfnod dod i ben 20fed o Fedi 2022. Nododd yr aelodau y sefyllfa araiannol a'r adroddiadau banc fel a restrir isod:-

(1) Cyfrif Cymunedol = £10,663.06 (Dwyn Ymlaen)
Arian i Mewn = £0.00
Arian Allan = £5.80 (Costau Banc - DR)
= £160.00 (David Roberts – Bwrdd Gwybodaeth – 200143)

= £405.39 (Cyflog y Clerc – SO)

= £101.40 (Taliad i'r HMRC – SO)
Heb ei Cyflwyno = £160.00 (J&D Fabrications – Ffens o gwmpas y goeden Jiwbili – 200144
= £37.00 (RBL – Torch x 2 ar gyfer Sul y Cofio – 200145)
= £55.00 (Aston Hughes – Gwasanaeth Cyflog – 200141)
<u>Cyfrif Cymunedol = £9,990.47 (Cludwyd Ymlaen)</u>
Cyfrif Busnes = £5,552.29 (Dwyn Ymlaen)
Arian Allan = £0.00
Arian i Mewn = £1.38 (Llog Banc)
<u>Cyfrif Busnes = £5,553.67 (Cludwyd Ymlaen)</u>
<u>Cyfanswm = £15,544.14</u>

Cytunodd pawb a'r adroddiadau yma.

b. Ynglun a bancio ar-lein mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl ymateb i'r trydydd cais ac hefyd am ateb i'r llythyr yn cwyno am brosesau cymleth a lluosogol y banc.

c. Mae ceisiadau yn dod i mewn tuag at baratoi y praesept y flwyddyn nesaf. Bydd rhain yn cael ei trafod yn y cyfarfod nesaf.

**8. GOHEBIAETH**

**i.Derbynwyd**

a. Llythyr gan Mrs Delyth Jones, Llanelian yn gofyn am gymorth ariannol tuag at ginio Nadolig i henoed ardal Llanelian.
b. Llythyr gan Mrs E Ann Vaughan yn gofyn am gefnogaeth ariannol tuag at gadw mynwent Trofarth yn daclus. Y glaswellt angen ei dorri unwaith eto yn mis Hydref.
c. Llythyr gan adran Diwylliant a Hamdden, CBSC yn gwadd y cadeirydd i noson Wobreuo Chwaraeon CBSC yn Venue Cymru ar y 25ain o Dachwedd.
ch. Ebost gan Haf Jones, adran Economi a Diwylliant, CBSC yn ymateb i ein cais am gymorth/grant i gynnal a chadw y Cae Chwarae yn Betws.

**ii.Anfonwyd**

d. Llythyr i Bennaeth Cyfrifon a Thrysorlus, CBSC ar ran pwyllgor adnewyddu y ganolfan gymdeithasol yn Llanelian i roi cefnogaeth ariannol iddynt dros dro os byddai angen
e. Sylwadau ar geisiadau cynllunio i Adran Gynllunio CBSC
f. Ceisiadau i Adran ERF, CBSC ar gyfer Gwaith angen ei wneud ar Ffordd y Figyn ayyb
g. Ebyst i Adran Economi a Diwylliant CBSC yngluna grant tuag at Cynnal a Chadw y Cae Chwarae yn Betws yn Rhos.
h. Llythyrau ac ebyst i'r Cynghorwyr yn dilyn negesuon, llythyrau ac ebyst yn dod i law.

**9. GRANTIAU**

**i. Ceisiadau i'r Cyngor**

a. Ty Gobaith
b. Cerebral Palsy
c. Henoed Llanelian
d. Mynwent Trofarth

**ii. Caisiadau gan y Cyngor**

a. Lleoedd LLeol ar Gyfer Natur - tuag at blannu blodau gwyllt ayyb yn ymyl Pafiliwn y cae chwarae yn Betws yn Rhos wedi cael ei llenwi a'i gyrru i mewn
b. Yn dal i ddisgwyl am ateb o Adran Economi a Diwylliant CBCS ynglun a grant i'r Cae Chwarae.

**10. CYNLLUNIO**

a. Rhif y Cais: 0/50061 Natur y Cais: Llawn

Derbyniwyd : 01/07/2022 Cofrestrwyd: 03/10/2022

Natur y Datblygiad: Newid Defnydd Tir Dosbarth Etholiadol: Betws Yn Rhos

Cyngor Cymuned: Cyngor Cymuned Betws-yn-Rhos Community Council

Lleoliad: Brynffanigl Isaf Rhyd Y Foel Road Rhyd Y Foel Betws Yn Rhos LL22 8NF

Cais: Newid defnydd tir - 2 gaban glampio.

Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais yma

b. Rhif y Cais: 0/50055

Natur y Cais: Diwygiad nad yw'n sylweddol

Derbyniwyd : 22/09/2022 Cofrestrwyd: 29/09/2022

Natur y Datblygiad: Aelwyd Dosbarth Etholiadol: Betws Yn Rhos

Cyngor Cymuned: Cyngor Cymuned Betws-yn-Rhos Community Council

Lleoliad: Ty Newydd Cilgwyn Road Llanelian Yn Rhos Colwyn Bay LL29 8YR

Non material amendment to planning approval 0/49463 (Ailadeiladu ty allan presennol sy'n fregus yn strwythurol er mwyn dod â'r amlen thermol yn unol â safonau presennol. Bydd yn cynnwys lle i gegin fwy, swyddfa gartref ychwanegol, ystafell gyfleustodau, garej ac ystafell wely, ystafell ymolchi ac ystafell fyw ar y llawr cynt

Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais yma.

c. Rhif y Cais: 0/50084

Natur y cais: Adeiladu Anecs i’w ddefnyddio mewn cysylltiad a thy anned presennol

Safle: Plas Meredydd, Pen y Ffrith, Betws yn Rhos LL22 8BU.

Nid oedd gwrthwynebiad i’r cais yma.

ch. Cyfeirnod: 0/50102 Ymgeisydd: Mr Max Jones

Cynllun: Creu mynedfa amaethyddol newydd yn lle'r un bresennol.

Safle: Land adjacent to Bryn Rodyn, Dolwen Road, Old Colwyn, Colwyn Bay LL29 8UQ

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi derbyn cais am y datblygiad uchod. Gallwch archwilio'r cais llawn a’r dogfennau cefnogol ar-lein yn:

http://www.conwy.gov.uk/poryddcynllunio

Gwrthwynebwyd y cais yma am fod digon o mynedfeydd I’r tir yma yn barod, hefyd am effaith byd natur gwyllt.

**11. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL**

Mae’r Clerc yn aros am ganlyniad yr Archwiliad Allanol (Archwiliad Cymru).

**12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD**

a. Y Cynghorydd wedi bod mewn cyfarfodau yn ymwneud a grantiau sydd ar gael o Gynghorau Cymunedol, rhai ohonynt angen gwneud cais cyn mis Rhagfyr.
b. Bydd Ffordd Abergele, Betws yn Rhos yn cael ei hail wynebu unwaith fydd cyflenwyr dwr ffon ayyb wedi gorffen gwneud gwaith arni. Bydd angen trafod dyfodol y ffynnon unwaith mae’r Gwaith ffordd wedi ei gwblhau.

**13. ATGYWEIRIO’R FFYNNON AR FFORDD ABERGELE, BETWS YN RHOS.**

Bydd edrych ar adnewyddu y ffynnon wrth wneud y gwaith ffordd 12.c uchod. Dal i edrych am grant i geisio rhoi cymorth i adnewyddu y ffynnon. Caiff hwn ei dynnu oddi ar yr agenda am y tro a wedyn ail ymweld a’r mater wedi I’r ffordd ei hatgyweirio.

**14. CYFARPAR CHWARAEON I BLANT IAU AR Y CAE CHWARAE.**

Gweler 9b uchod. Mae pethau yn symud yn ara deg iawn yn Cyngor Conwy ynglun a hyn. Bydd llythyr arall yn cael ei ddanfon. Cyn y cyfarfod nesaf.

**15. FFOADURIAID O’R WCRAIN.**

Deallir fod un person, neu un teulu yn awr yn byw yn yr ardal. Does neb wedi cyswllt a'r Cyngor am gymorth i'r unigolyn yma. Caiff hwn ei dynnu oddi ar yr Agenda am y tro ac ail ymweld pan ddaw cais i mewn.

**16. CYFARPAR AR GYFER GWNEUD Y CYFARFODYDD YN RHITHIOL**
Er mwyn cynwysiedigaeth, mae angen edrych ar ffordd o alluogi aelodau o'r Cyngor a'r cyhoedd gymeryd rhan yn y cyfarfodydd yn rhithiol pe baent am unrhyw reswm yn methu bod yno mewn person. 'Rydym nawr wedi cael dyfynbris rhesymol. Mae angen penderfyny ymhle fydd cyfarfodau y Cyngor yn cael ei cynnal yn y dyfodol er mwyn gwneud yn siwr y bydd yr offer yn addas, ac hefyd fod ganddom yswiriant digonol a rei gyfer.

**17. GORDYFIANT AR LONYDD GWYRDD A LLWYBRAU LLEOL**
Mae archwyliad i faint ac ymhle oedd y lonydd a'r llwybrau hyn yn dal ar y gweill, a bydd dynesiad i'r Cyngor Sir yn cael ei wneud amdanynt i gyd. Mae ambell i gamfa yn awr angen ei cynnal a'i cadw hefyd.

**18. ARWYDD FFORDD HEN FFASIWN AR GORNEL PLAS YN BETWS A CAPEL BACH SION**
Aros am ddyfynbris a'r posibilrwydd o wneud arwydd newydd gan gwmni lleol.

**19. FFERM WYNT ALLTRAETH AWEL Y MOR & Gwynt y Mor**
Mae'r Cyngor yn awr wedi ei cofrestru gyda Cwmni Awel y Mor fel cymdeithas sydd a diddordeb yn y broject er mwyn cael gwybodaeth reolaidd am y cynlluniau. Byddwn yn cadw golwg ar y datblygiadau. Mae prosiect arall ar y gweill yn awr hefyd sef Gwynt y Mor. Mae'n bosib y bydd y ceblau o'r brosiect hon yn cael ei gyrru drwy ranau o ardal Betws yn Rhos.

**20. YMGYRCH LEOL I REOLI FFERMYDD GWYNT**
Mae posteri yn awr ar gael wrth fynd ar www.moelfre2022@gmail.com. Fe ddisgwyliwn tan y bydd yna gais am gynllunio yn ein hardal cyn symud hyn ymlaen.

**21. LLWYBR NATUR**
Cynigwyd edrych ar yr hen ffordd porthmon ac hefyd yr hen ffordd rufeinig fel posibilrwydd o wneud llwybyr natur yn y fro. Mae angen cael cymorth gan rhywun sydd yn adnabod y llwybrau cyhoeddus lleol ac hefyd yn gwybod ar pa fath o fywyd natur a ddisgwylir iw weld ar hyd y llwybrau. Cynigwyd hysbysu ar y bordiau gwybodaeth, ar daflen we yr ardal ac hefyd gyda'r gymdeithas gerdded yn Y Gadlas..

**22. NEWIDIADAU I SUSTEM GYNLLUNIO AYYB**
Mae angen edrych yn mwy manwl ar y cynllun 'levelling up' i weld beth fydd y canllawiau newydd a sut y bydd hyn yn effeithio ar Gynghorau Cymuned. Mae hyn yn waith a fydd yn mynd ymlaen yn y cefndir. Pan fydd unrhyw neidiadau yn bodoli fe wnawn ei drafod eto. Cymeryd hwn oddi ar yr agenda am rwan.

**23. GWAITH FFORDD / CAU'R FFORDD YN DOLWEN – BWRDD DWR**
Y Gwaith yma yn hanfodol felly does dim modd na phwrpas iw wrthwynebu. Dim mwy iw drafod am hyn. Ei dynnu oddi ar yr agenda.

**24. Y GADLAS**
Cynnig rhoi erthygl yn Y Gadlas am y Llwybyr Natur (Item 21).

**25. TREFNU NOSON O DDIOLCH I AELODAU A SWYDDOGION Y CYNGOR SYDD WEDI YMDDEOL YN DDIWEDDAR**
O achos salwch ymysg rhai o'r gwestion bydd y trefriadau yn cael ei gwneud mewn chydig wythnosau. Bydd hyn yn cael ei symud ymlaen yn yr wythnosau nesaf a wedyn cawn ei dynu oddi ar yr agenda.

**26. UNRHYW FATER ARALL**
a. Cais gan Ysgol y Plas am arian tuag at larwn mwg ayyb. Iw gael ei roi ar y rhestr Praesept 2023/2024. Angen costau swyddogol.
b. Mae costau paratoadau ar gyfer gwaith cynllunio y Ganolfan Newydd yn Llanelian wedi cael ei derbyn gan y pwyllgor datblygu y Ganolfan. Bydd cais yn dod i law am gyfraniad tuag at y costau hyn.
c. Mae angen ail wneud y bwrdd gwybodaeth wrth hen eglwys Trofarth. Y Clerc i ofyn i Dafydd Jones a wnaeth y gwaith i fwrdd gwybodaeth Betws.
ch. Mae gwaith wedi dechrau ar y rhestr o weithgareddau sef y rhifau i I iv isod:

i. Gwaith cynnal a chadw, ac ychwanegu at yr offer yn y cae chwarae.
ii. Plannu lleoliad o flodau gwyllt / coed ffrwythau yn ymyl y pafiliwn.
iii. Datblygu y llwybyr natur.
iv. Ymgyrch i reoli ffermydd gwynt yn yr ardal.
v. Datblygu cynllun 'Llunio Dyfodol Cymru ynghyd a Cynghorau Cymunedol cyfagos.

d. Angen edrych ar sustem ac arwyddion i ddiogelu mwy ar y ffordd I mewn ac allan o'r caeau chwarae. Tu ol i Neuadd Betws yn Rhos.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe ddaeth y cyfarfod i ben am 9.40y.h.

CADEIRYDD……………………………………………………DYDDIAD……………………………………